# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG,
# 5 HYDREF, 2011

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorwyr Selwyn Griffiths Alwyn Gruffydd ac Ieuan Roberts, (Cyngor Gwynedd), ynghyd â'r Mri Gwyn Davies (Cyngor Tref Porthmadog), Robert Owen (Buddiannau Masnachol), Dr John Morris (Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden) a David Eastwood, (Cynrychiolydd Buddiannau'r Harbwr).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), David O'Neill (Harbwr Feistr) ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor).

## 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Ieuan Roberts yn Gadeirydd am y flwyddyn 2010/11.**

## 2. IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Selwyn Griffiths yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2010/11**

## 3. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd Dyfed Edwards, (Cadeirydd Bwrdd y Cyngor), Peter Lunt Williams (Sefydliad y Bad Achub),

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 5. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Mawrth, 2011, fel rhai cywir.

## 6. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod gwaith wedi ei wneud i godi'r wal oedd wedi dymchwel ger Llyn Bach. Fodd bynnag 'roedd peth deunydd yn parhau yn yr afon a phwysleisiwyd fod pob ymdrech yn cael ei gwneud i ddarganfod pwy sy'n gyfrifol am ei glirio.

Nododd y swyddog fod y sefyllfa'n achos pryder oherwydd bod y deunydd yn amharu ar lif y dŵr a'r angorfeydd cyfagos.

Dywedodd aelod fod arian, a gafwyd drwy'r Cynulliad wedi ei dalu am godi'r wal, ac y dylai'r gwaith yma fod yn cynnwys clirio'r holl ddeunydd.

**PENDERFYNWYD rhoi pwysau pellach ar i'r gwaith o glirio'r deunydd o'r afon gael ei gwblhau.**

## 6. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a nododd fod hyn yn cael ei wneud ar ffurf wahanol i'r arfer fel rhan o'r ymdrechion i gyrraedd targedau gwaith, cwblhau tasgau allweddol a chynorthwyo staff yr Uned.

Cyflwynodd y swyddog wybodaeth ar y materion canlynol yn unigol:

**Mordwyo ac Angorfeydd:**
Nodwyd bod y cymhorthion mordwyo wedi eu cadw mewn trefn resymol a gwnaed y prif sylwadau canlynol gan y swyddog:

- Er bod tri o'r cymhorthion allan o'u safle priodol ar hyn o bryd byddant yn cael eu gosod yn gywir cyn gynted ag y bydd gwaith atgyweirio ar y cwch a ddefnyddir wedi ei gwblhau.
- Bod dros £2000 wedi ei fuddsoddi yn y goleuadau ar y cymhorthion a bod yr Uned, trwy Dŷ'r Drindod, wedi cytuno i ddefnyddio'r llusernau gydol y gaeaf.
- Fod mordwyo, yn amlwg yn gwella ym Mhorthmadog ac nad oes unrhyw gŵyn wedi ei derbyn ynglŷn â safon y cymhorthion mordwyo eleni.
- Mai contractwr a gyflogwyd i wneud y gwaith o gael y cymhorthion traethau i mewn a bod hyn yn fwy cost effeithiol.
- Fod buddsoddiadau sylweddol yn y gorffennol yn golygu fod cost cynnal a chadw angorfeydd yn lleihau a bod y posibilrwydd o wario dim eleni yn cael ei ystyried. Byddai'n rhaid cloriannu hyn yn erbyn y difrod allasai ddigwydd pe byddai un o'r angorfeydd yn torri yn ystod gwynt cryf.
- Fod archwiliadau Tŷ'r Drindod wedi eu gohirio hyd 2012.

Mewn ymateb, cyfeiriodd Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden at un o'r bwiau sydd wedi troi ar ei ochr ac nad yw'r golau'n amlwg arno oherwydd hyn. Ychwanegodd fod y sefyllfa, ar y cyfan yn dda iawn.

Gwnaed nodyn o'r sylw, a nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig eu bod mewn cysylltiad ag Uned Hafan Coleg Meirion Dwyfor yn ystyried y posibilrwydd o wneud cymhorthion mordwyo fyddai'n fwy addas ar gyfer aberodd lle mae'r dŵr yn llifo'n gyflym yn arbennig ar lanw mawr.

**Trwyddedau Perchnogion a Chychwyr:**

Esboniwyd fod y dyfroedd ym Mhorthmadog wedi eu categoreiddio a bod un cwch wedi ei drwyddedu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf i weithredu o fewn y dyfroedd yma. Ymhelaethodd y swyddog gyda'r prif sylwadau canlynol::

- Fod y drwydded yn caniatáu i hyd at wyth o deithwyr gael eu cario o fewn y dyfroedd sydd wedi eu categoreiddio.
- Fod rhaid i unrhyw un sy'n derbyn trwydded gydymffurfio â thelerau'r drwydded gan gyd-fynd â'r diffiniad o'r hyn ydy 'tywydd ffafriol.'
- Yn ôl sylwadau a dderbyniwyd, fod cwch a oedd wedi ei drwyddedu wedi cael ei ddefnyddio mewn harbwr cyfagos pan nad oedd y tywydd yn ffafriol.
- Bod rhaid diogelu'r teithwyr a phwysleisio bod ardal y dyfroedd yn fawr gyda'r sefyllfa'n amrywio mewn gwahanol fannau.
- Nad oedd unrhyw beth negyddol yn gysylltiedig â ***Sylwadau 2011*** a bod cydweithrediad y Clwb Hwylio o safbwynt y pwynt hwylio a glanio teithwyr yn cael ei werthfawrogi.
- Ei bod yn dderbyniol i ***Gymhwyster*** y rhai sy'n derbyn trwydded fod ar o leiaf RYA Lefel 2 gyda chymhwysterau eraill cyfredol ynghlwm.. Er hyn disgwylir i'r rhai sy'n dod i Borthmadog gael eu hasesu gan yr Harbwr Feistr a/neu swyddog arall o'r Uned Forwrol.

Mewn ymateb i ymholiad cadarnhawyd bod y gwaith a wnaed gan y Clwb Hwylio i gynyddu nifer y pontŵns wedi bod yn llwyddiannus er na fu'r tywydd yn gwbl ffafriol yn ystod yr haf.

Nodwyd ymhellach fod llawer o ymholiadau wedi eu derbyn ynglŷn â'r teithiau cwch oedd yn cael eu rhedeg o'r harbwr ym Mhorthmadog. Fodd bynnag, gan fod yr un person yn rhedeg gwasanaeth tebyg yn Abermaw, nid oedd y teithiau'n cael eu cynnig yn gyson. Derbyniwyd y gellid trefnu system well o hysbysebu'r gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Wrth gyflwyno gwybodaeth ynglŷn ag ***Ystadegau Morwrol*** nododd y swyddog y prif bwyntiau canlynol:

- Bod system cofrestru'r Badau Dwr Personol yn gwella'n gyson a bod nifer y cwynion sy'n cael eu derbyn wedi gostwng yn sylweddol.
- Yn gyffredinol gwelwyd gostyngiad yn y cyfanswm o'r Badau Dŵr Personol a gofrestrwyd, sef o 965 yn 2010 i 829 yn 2011.
- Bod y nifer a gofrestrwyd ym Mhorthmadog wedi cynyddu o 39 yn 2010 i 51 yn 2011 er bod y nifer ym Morfa Bychan wedi gostwng o 201 i 168
- 'Roedd gostyngiad yn nifer cychod pŵer yn gyffredinol o 1389 yn 2010 i 1171 yn 2011. Ym Mhorthmadog 'roedd y nifer wedi gostwng o 28 i 24 ac ym Morfa Bychan 'roedd y gostyngiad o 32 i 29.
- Y prif reswm am y gostyngiad oedd yr hinsawdd economaidd gyda chostau tanwydd a'r cynnydd yn y TAW yn cael effaith.
- Penderfynwyd peidio gosod y cynnydd yn y TAW ar ffioedd y Cyngor
- O gymharu nifer y cychod pŵer a'r cychod hwylio ym Mhorthmadog, gwelwyd fod 61.8% yn gychod hwylio.
- Bod yr angorfeydd wedi eu graddio er mwyn sicrhau fod y prisiau'n decach.
- Bod mwy yn angori ar angorfeydd cyffredin ym Mhorthmadog nag unrhyw harbwr arall yng Ngwynedd.
- Bod Hafan Pwllheli yn bwysig o safbwynt y budd economaidd a bod gostyngiad yn y nifer sy'n angori yno gyda 40 o'r angorfeydd yn wag ar hyn o bryd.
- Bod cyfanswm cychod ar angorfeydd Gwynedd oddeutu 79%.
- Cafwyd mis Gorffennaf ac Awst gwael iawn o safbwynt tywydd a chafwyd y gorau yn ystod Mawrth, Ebrill a dechrau Hydref. Er hyn llwyddwyd i fod yn agos iawn at y targedau incwm ar Draeth Morfa Bychan.
- Bod cyfnod cyflogaeth staff tymhorol wedi dod i ben ym Morfa Bychan ar ddechrau Medi yn hytrach na diwedd y mis yn ôl yr arfer.
- Fod cynnig yn cael ei wneud i bawb sydd gydag angorfa i gael angori yn Hafan Pwllheli yn ystod misoedd y Gaeaf ar gost o tua £70 y mis. Dim bwriad i danseilio busnesau lleol oedd hyn ond yn hytrach, cyflwyno cyfle hwylio dros fisoedd y gaeaf.
- Hyd yma manteisiwyd ar y cynllun gan un cwch o Aberdyfi, 2 o Abermaw, 2 o Borthmadog a 12 o'r Harbwr allanol ym Mhwllheli.

Nododd fod penderfyniadau anodd i'w gwneud parthed ***Cyllidebau*** gyda chyllidebau a nifer y gweithwyr yn cael eu torri'n sylweddol. Ymhelaethodd y swyddog gan wneud y prif sylwadau canlynol:

- Bod y cwtogi parthed swyddi hyd at ddiwedd Awst 2011 yn golygu arbediad gyda £24,838 yn weddill
- Disgwylir y gellir gwario i'r gyllideb ym maes cynnal a chadw
- Fod cyfanswm gwariant Harbwr Porthmadog yn agos i £71,000 ac mae oddeutu £50,000 yn weddill.

- Mae targed incwm ym Mhorthmadog yn £75,000 ac ar hyn o bryd mae bron i £70,000 i mewn ac nid oes disgwyl i'r sefyllfa wella yn ystod misoedd y gaeaf.
- Ystyrir fod y sefyllfa ariannol o safbwynt Harbwr Porthmadog yn gadarnhaol iawn a diolchodd y Swyddog am ymrwymiad y staff i gynnal ansawdd uchel yr Harbwr.
- O safbwynt adroddiad ariannol yr Harbwr yn 2010/11 llwyddwyd, yn gyffredinol i adennill costau ac ystyriwyd hyn i fod yn gadarnhaol iawn.
- Bod adroddiadau cychwynol yn adrodd fod chwyddiant yn rhedeg ar 4.5½ % a bod hyn yn achosi pryder mewn cysylltiad â ffioedd a thaliadau'r flwyddyn nesaf. Y gobaith yw osgoi cynyddu ffioedd yn unol â graddfa chwyddiant.
- Bod Asiant y Goron yn galw at i daliadau gael eu gwneud am bob angorfa. Byddai'r swm yma oddeutu £35 a phwysleisiwyd mai'r cleientiaid fyddai'n dioddef.
- Bydd y Cyngor yn cymryd pob cam posib i wrthwynebu'r costau yma.

Mynegwyd pryder gan aelodau ynglŷn â'r posibilrwydd o dalu swm ychwanegol i'r Goron am bob angorfa. Pwysleisiwyd nad oedd unrhyw fantais yn deillio o'r taliadau i'r Goron a galwyd ar i wrthwynebiad cadarn gael ei wneud.

**PENDERFYNWYD tynnu sylw aelodau seneddol Gwynedd at y mater a'u hannog i gefnogi ymgyrch y Cyngor i wrthwynebu'r taliadau ychwanegol.**

Cyfeiriwyd at lwyddiant ***Ddathliadau Cob 200*** a diolchodd aelod am yr holl gefnogaeth a gafwyd gan yr harbwr feistr a holl staff yr Harbwr.

Nodwyd fod cefnogaeth y Clwb Hwylio a'r Clwb Rhwyfo o werth neilltuol a bod y ras a gynhaliwyd wedi bod yn hynod lwyddiannus.
Yn sgil y llwyddiant, y bwriad yw cynnal achlysur tebyg yn flynyddol.

O safbwynt ***Gwelliannau*** cyfeiriodd y swyddog at y datblygiadau canlynol:

- Gwnaed gwelliant i arwyneb ochr y Cei oherwydd ei bod yn anodd cerdded o naill ben y Cei i'r llall. Rhoddwyd concrid o liw addas yno gyda'r cyfan yn gwneud y lle yn ddiogelach.
- Mabwysiadwyd ardal y palmant rhwng y maes parcio bach a Swyddfa'r Harbwr. Neilltuwyd £15,000 ar gyfer ail-wynebu'r palmentydd a gosodwyd targed i orffen y gwaith cyn y Nadolig.
- Gwnaed cais gan Reilffordd Ffestiniog i adennill tir yn ardal yr Harbwr. Gan na fyddai'r bwriad yn amharu dim ar fordwyo nac ar ardal yr harbwr, cadarnhawyd na fyddai gwrthwynebiad yn cael ei gyflwyno. Mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan aelodau nodwyd mai dyddiau yn unig gafwyd i ymateb. Dosbarthwyd copïau o'r cynlluniau ymysg yr aelodau. Nodwyd gan aelod hefyd y byddai wedi bod yn bosib galw cyfarfod brys o'r Pwyllgor hwn i ystyried y mater.
- Cwblhawyd gwaith tacluso yn Ardal Borth y Gest a bydd yn rhaid i bawb gofrestru eu cwch yna hefyd. Yn ogystal, gosodwyd dwy fainc goffa yno. Nododd cynrychiolydd y Cyngor Tref fod y gwaith yn cael ei werthfawrogi, ond mynegwyd pryder ganddo oherwydd bod rhai o du allan i'r ardal sy'n gadael cychod ac offer yno yn creu trafferthion i bobl leol.
- Bydd ardal storio'r cychod gweini yn ardal Harbwr Porthmadog yn cael ei ymestyn
- Mae ymholiadau'n cael eu gwneud parthed Fforddfraint Harbwr Porthmadog gyda chwmnïau'n awyddus i ddod a llongau i mewn i'r Cei. Eu bwriad ydy llwytho a dadlwytho deunydd o Atomfa Trawsfynydd yn ogystal â dod a cherrig i'r ardal. Mae gwaith yn cael ei wneud i ddarganfod union eiriad y Fforddfraint.

Cyflwynwyd gwybodaeth ynglŷn â'r ***staff*** a nodwyd mai dim ond 8 gweithiwr sydd o fewn y Gwasanaeth yn ystod y gaeaf, ac ym Mhorthmadog bydd yna Harbwr Feistr a swyddog Traeth. Ceir cymorth gan y ddauSwyddog Morwrol Harbyrau a Thraethau fel bo angen, ond bydd ardal cyfrifoldeb Porthmadog yn ymestyn i lawr i Landanwg ac i fyny i Gricieth.

Nodwyd bod yr Heddlu'n awyddus i'r ***Cynllun Gwarchod Morol*** gael ei ail sefydlu oherwydd bod llawer o ladrata yn digwydd oddi ar gychod mewn harbyrau. Yn dilyn cais yr Heddlu bydd yr Adran Forwrol yn anfon ffurflen i'w holl gwsmeriaid ym mis Chwefror yn gofyn iddynt gofrestru i fod yn rhan o'r Cynllun. Yn ogystal bydd gwybodaeth bellach ar gael ym mhob harbwr.

Mynegwyd pryder gan aelod oherwydd bod rhai o du allan i'r ardal yn ceisio gwerthu amrywiol bethau ym Morfa Bychan ar draul busnesau lleol. Diolchodd am y gwaith sy'n cael ei wneud gan weithwyr y Cyngor i rwystro hyn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gyda diolch i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a holl staff yr harbwr am eu gwaith cydwybodol.**

**7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Cadarnhawyd y cynhelir y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor hwn ar 7 Mawrth, 2012.

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00pm a daeth i ben am 7:20pm

**CADEIRYDD**